**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/PO/217/2023

Elin Jones AS
Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddBusnes@senedd.cymru

22 Mehefin 2023

Annwyl Elin,

O dan Reol Sefydlog 20, fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros Fusnes y Senedd, mae'n ofynnol imi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes bythefnos cyn diwedd tymor yr haf i nodi amserlen ar gyfer pryd y caiff Cyllideb Ddrafft 2024-25 ei gosod, a chynnig y gyllideb flynyddol ei gyflwyno.

Nid yw Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi dyddiad y digwyddiad cyllidol eto pan fyddwn yn cael gwybod union fanylion ein setliad cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Er bod gennym eisoes ddyraniadau cyllidebol dangosol o dan yr Adolygiad o Wariant amlflwyddyn, mae'r pwysau sylweddol yn sgil chwyddiant ers yr Adolygiad hwnnw, ynghyd â llawer o ansicrwydd hyd nes y caiff ein setliad terfynol ei gadarnhau, yn golygu ein bod yn debygol o wynebu dewisiadau heriol unwaith y byddwn yn gwybod beth fydd ein setliad. O ganlyniad, yr unig ddewis call unwaith eto yw dilyn amserlen gyllidebol debyg i amserlen y blynyddoedd diwethaf, sef cyhoeddi ein cyllideb ddrafft tua diwedd tymor yr hydref.

Mae cyhoeddi cyllideb ddrafft wrth ddysgu manylion ein setliad cyllidebol terfynol mor hwyr yn creu heriau o ran datblygu cynlluniau gwario adrannau ac o ran gwaith craffu'r Senedd. Mae'r amserlen yr ydym yn bwriadu ei dilyn yn cydnabod yr angen i ddarparu digon o amser i sicrhau y gallwn baratoi'n effeithiol at y gyllideb a darparu lefel briodol o fanylder yn ein dogfennau ar gyfer y gyllideb, gan hefyd sicrhau cymaint o amser â phosibl i'r Senedd graffu arnynt.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rheol Sefydlog 20.6 yn gwneud darpariaeth i’r Pwyllgor wneud newidiadau i’r amserlen ar gais y Llywodraeth. Yn ddarostyngedig i hyn, ac ar y ddealltwriaeth y byddwn yn darparu amserlen gadarn cyn gynted â phosibl ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad ynghylch ei Chyllideb, hoffwn nodi yn awr ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft amlinellol a'r Gyllideb ddrafft fanwl gyda'i gilydd ar **12 Rhagfyr 2023**, a'r Gyllideb derfynol ar **27 Chwefror 2024**.

Wrth gynnig y dyddiadau hyn, rwyf yn ymwybodol o Reol Sefydlog 20.5 a’r trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a’r Senedd ynghylch y cyfnod ar gyfer craffu. Mae Rheol Sefydlog 20.5 yn darparu, o dan amgylchiadau ‘arferol’, fod y Pwyllgor Cyllid yn cael wyth wythnos i adrodd ar gynigion y gyllideb amlinellol a phum wythnos i bwyllgorau ystyried cynigion manwl y gyllideb. Er na ellir galw’r flwyddyn hon yn flwyddyn ‘arferol’ o dan y fersiwn bresennol o’r Rheolau Sefydlog a Phrotocol y Gyllideb, rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau’r craffu llawnaf posibl ar ein cynigion gwario. O ganlyniad, byddai’r amserlen yr wyf wedi’i hamlinellu’n galluogi saith wythnos a phedwar diwrnod i graffu ar y Gyllideb Ddrafft, sef pedair wythnos a phedwar diwrnod eistedd a thair wythnos nad ydynt yn wythnosau eistedd.

Byddai’r dyddiadau hyn yn golygu y byddai angen i’r Pwyllgor Cyllid gyhoeddi ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar neu cyn dydd Llun 5 Chwefror er mwyn gallu cynnal y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft ddydd Mawrth 6 Chwefror. Mae’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi trafod hyn â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid i ofyn a ellir darparu ar gyfer y trefniant hwn.

Mae’r Gweinidog yn ysgrifennu’n ffurfiol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i geisio dealltwriaeth y Pwyllgor o gofio'r amgylchiadau. Hoffai’r Gweinidog a minnau achub ar y cyfle yn y Pwyllgor Busnes i ofyn am gadarnhad gan fy nghyd-Reolwyr Busnes y byddent yn gefnogol yn yr un modd.

Rwyf yn ddiolchgar am ddealltwriaeth y Pwyllgor a hyderaf fod y trefniadau hyn yn dderbyniol o gofio’r amgylchiadau sy’n cael eu gyrru gan ffactorau allanol y tu hwnt i’n rheolaeth.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**